Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyflawni Llywodraethu Da – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2272A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham 4

Yr hyn a ganfuom 5

Materion allweddol i'w hystyried 5

Adroddiad manwl

Nid yw agweddau ar drefniadau'r Cyngor wedi datblygu'n ddigon da eto i ategu graddfa gynyddol rhaglen drawsnewid eang y Cyngor 8

Roedd asesiad anghyflawn y Cyngor o'i drefniadau ei hun yn canolbwyntio'n ormodol ar bresenoldeb dogfennau a phrosesau yn hytrach na'u heffaith a'u heffeithiolrwydd 8

Mae uchelgais y Cyngor wedi cynyddu, ac nid yw agweddau ar ei drefniadau wedi datblygu'n ddigon da eto i sicrhau ffocws trylwyr a chyson ar flaenoriaethau corfforaethol 10

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) wedi datblygu Strategaeth Drawsnewid (y Strategaeth), '#Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd'. Fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo'r Strategaeth ym mis Mehefin 2019. Mae'r Cyngor yn disgrifio'r Strategaeth fel, 'model gweithredu 'awdurdod cyfan' newydd i sicrhau Bwrdeistref Sirol Caerffili gydnerth at y dyfodol'. Wrth grynhoi ei strategaeth, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd ei chyflawni'n galw am 'weddnewid ein diwylliant ac arweiniad bwriadus, effeithiol gan wleidyddion a swyddogion i fwrw ymlaen â'r agenda newid uchelgeisiol'.

2 Mae'r Strategaeth yn adlewyrchu uchelgais y Cyngor i drawsnewid yn gyflym, ac mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llywodraethu corfforaethol cryf yn hollbwysig er mwyn i benderfyniadau da gael eu cymryd yn gyson ar draws y Cyngor. Felly fe benderfynodd y Cyngor gynnal hunanasesiad o'i drefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau bod ei weithdrefnau a'i bolisïau'n addas at ddiben ategu'r agenda drawsnewid. Fe strwythurodd y Cyngor ei hunanasesiad gan ddefnyddio'r saith egwyddor a nodir yn 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith' (y Fframwaith)'[1].

3 Fe eglurom ni yn ein Llythyr Archwilio Blynyddol ym mis Hydref 2019 y byddem yn cynnal adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Wrth gynnal ein hadolygiad, fe ddwedom ni y byddem yn ystyried cynnwys a chadernid hunanasesiad y Cyngor, yn ogystal â thynnu, lle y bo'n berthnasol, ar ganfyddiadau archwilio blaenorol. Roeddem wedi bwriadu i'n hadolygiad gynnwys dau gam. Ffocws a phwrpas Cam 1 fyddai ystyried i ba raddau yr oedd y Cyngor yn gwella'i drefniadau llywodraethu fel eu bod yn ategu ei agenda drawsnewid. Yn amodol ar ganlyniad Cam 1, roeddem yn bwriadu defnyddio Cam 2 i fonitro, cefnogi a herio'r Cyngor o ran y modd yr oedd yn gweithredu rhai o'r blaenoriaethau gwella cytunedig a adnabuwyd trwy ei hunanasesiad.

4 Ym mis Mawrth 2020, fe wnaeth yr angen i ymateb i bandemig y Coronafeirws darfu ar hunanasesiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu. Rydym yn cydnabod na chafodd proses hunanasesu gryno'r Cyngor ei chwblhau byth; roedd y dystiolaeth ategol yn anghyflawn ac ni fu unrhyw waith mewnol i gymedroli dyfarniadau cychwynnol swyddogion iddynt. Fe wnaeth y pandemig hefyd darfu ar gynlluniau gwreiddiol y Cyngor i gomisiynu her allanol i'w hunanasesiad.

5 Ers mis Mawrth 2020, bu gan y Cyngor rôl allweddol o ran lliniaru effaith pandemig y Coronafeirws. Cafodd llawer o staff eu hadleoli'n wreiddiol i rolau gwahanol ac fe newidiodd prosesau penderfynu'r Cyngor dros dro rhwng mis Mai a mis Mehefin

[1] 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith', Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a SOLACE, 2016

2020. Mae'r Cyngor bellach wedi dechrau gweithredu ei Fframwaith Adfer Strategol, sy'n cynnwys rhannau allweddol o'r Strategaeth Drawsnewid. Yn arbennig, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal rhaglen o adolygiadau corfforaethol, gan gynnwys adolygiad o Brosesau Penderfynu. Mae'r Adolygiad o Brosesau Penderfynu i fod i gael ei gwblhau cyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2021.

6 Mae'r adroddiad hwn yn cynrychioli allbwn Cam 1 ein hadolygiad. Mae'n adlewyrchu ein barn am hunanasesiad anghyflawn y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu. Gan bod y pandemig wedi tarfu ar waith hunanasesu'r Cyngor, nid ydym wedi ceisio gwerthuso'r Cyngor yn erbyn pob un o saith egwyddor y Fframwaith. Yn lle hynny, rydym wedi ystyried trefniadau'r Cyngor yn eu cyfanrwydd, a hefyd wedi tynnu ar gyd-destun digwyddiadau a thrafodaethau diweddar eraill. Ein bwriad yn ystod Cam 2 y prosiect yw cefnogi a herio'r Cyngor o ran y modd y mae'n gweithredu ei Strategaeth Drawsnewid a'i Fframwaith Adfer Strategol, yn enwedig ei raglen o adolygiadau corfforaethol.

7 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod 2020 ac ar ddechrau 2021.

## Yr hyn a ganfuom

8 Ein bwriad yn wreiddiol oedd y dylai ein hadolygiad ateb y cwestiwn: '**A yw'r Cyngor yn gwella'i drefniadau llywodraethu fel eu bod yn ategu ei agenda drawsnewid'**? Fodd bynnag, oherwydd yr amgylchiadau a nodwyd ym **mharagraffau 5 a 6**, yn lle hynny rydym wedi rhoi ffocws mwy cul ar gadernid trefniadau'r Cyngor i gyflawni ei Strategaeth Drawsnewid.

9 Ar y cyfan, canfuom nad yw agweddau ar drefniadau'r Cyngor wedi datblygu'n ddigon da eto i ategu graddfa gynyddol rhaglen drawsnewid eang y Cyngor. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- roedd asesiad anghyflawn y Cyngor o'i drefniadau ei hun yn canolbwyntio'n ormodol ar bresenoldeb dogfennau a phrosesau yn hytrach na'u heffaith a'u heffeithiolrwydd; ac
- mae uchelgais y Cyngor wedi cynyddu, ac nid yw agweddau ar ei drefniadau wedi datblygu'n ddigon da eto i sicrhau ffocws trylwyr a chyson ar flaenoriaethau corfforaethol.

## Materion allweddol i'w hystyried

10 Rydym yn nodi yn **Arddangosyn 1** isod y materion pwysicaf y dylai'r Cyngor eu hystyried yn ein tyb ni wrth fwrw ymlaen â'r agenda uchelgeisiol y mae wedi'i phennu ar ei gyfer ei hun. Yn ystod 2021-22, byddwn yn canolbwyntio ar y materion hyn yn ein gwaith archwilio parhaus, i gefnogi a herio'r Cyngor o ran y modd y mae'n gweithredu ei Strategaeth Drawsnewid a'i Fframwaith Adfer Strategol ac, yn arbennig, ei raglen o adolygiadau corfforaethol.

**Arddangosyn 1: materion allweddol i'w hystyried**

**Materion allweddol i'w hystyried**

**Cydgyfuno blaenoriaethau'r Cyngor**

B1 Er mwyn creu a chynnal ffocws a rennir gan bawb, dylai'r Cyngor gyd-gyfuno'i flaenoriaethau mewn un cynllun sy'n hydrin, yn nodi popeth mewn trefn ac y cytunwyd arno. Dylai'r cynllun rychwantu'r tymor byr a chanolig a dylai nodi, ar gyfer pob amcan, beth yw'r deilliannau a ddymunir.

**Aseinio cyfrifoldebau**

B2 Er mwyn ehangu perchnogaeth ar ei flaenoriaethau a chynyddu atebolrwydd am eu cyflawni, dylai'r Cyngor aseinio cyfrifoldeb am bob blaenoriaeth ar lefelau swyddogion a gwleidyddion. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol gynnwys o fewn eu dyletswyddau yr angen i ymgysylltu'n drylwyr â rhanddeiliaid perthnasol.

**Monitro cynnydd a gwerthuso effeithiolrwydd**

B3 Er mwyn gwella ansawdd prosesau gwerthuso a phrosesau penderfynu sy'n dilyn, dylai'r Cyngor:

- ddefnyddio dadansoddiadau data ac ansoddol yn fwy wrth gynllunio; ac
- ymestyn y defnydd o ddadansoddiad meintiol ac ansoddol i werthuso effaith y newidiadau sy'n deillio o gyflawni ei flaenoriaethau.

**Cynllunio gwaith y Cabinet**

B4 Er mwyn helpu i sicrhau bod aelodau gweithredol ac anweithredol yn cadw ffocws ar ei flaenoriaethau cytunedig dylai'r Cyngor:

- amserlennu penderfyniadau allweddol ymhell rhag blaen ym mlaenraglen waith y Cabinet; ac
- ystyried sut orau i ennyn ymgysylltiad ei swyddogaeth graffu i fynd ati mewn modd adeiladol i herio cynnydd y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion ac o ran pennu ei gyfeiriad teithio.

**Materion allweddol i'w hystyried**

**Sicrhau y gwelir bod prosesau penderfynu'n dryloyw**

B5 Er mwyn cynyddu tryloywder prosesau penderfynu, dylai papurau sy'n ategu prosesau penderfynu:

- gynnwys trafodaeth ddigonol am opsiynau eraill; ac
- egluro'n benodol beth yw barn y Swyddog Monitro a'r Swyddog A151 ynglŷn â'r dull gweithredu a argymhellir.

# Adroddiad manwl

## Nid yw agweddau ar drefniadau'r Cyngor wedi datblygu'n ddigon da eto i ategu graddfa gynyddol rhaglen drawsnewid eang y Cyngor

### Roedd asesiad anghyflawn y Cyngor o'i drefniadau ei hun yn canolbwyntio'n ormodol ar bresenoldeb dogfennau a phrosesau yn hytrach na'u heffaith a'u heffeithiolrwydd

11 Tuag at ddiwedd 2019 ac yn gynnar yn 2020, dechreuodd y Cyngor lunio hunanasesiad o'i drefniadau llywodraethu yn seiliedig ar y saith egwyddor a nodir yn y Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (y Fframwaith). Diben yr hunanasesiad hwn oedd darparu sicrwydd ar gyfer y Cyngor bod ei drefniadau llywodraethu corfforaethol yn ddigon effeithiol a chryf i ategu ei Strategaeth Drawsnewid #Tîm Caerffili (y Strategaeth).

12 Mae'r Fframwaith yn nodi bod gweithredu er lles y cyhoedd yn galw am:

- ymddwyn ag uniondeb; ac
- ymgysylltiad agored a chynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Mae'r Fframwaith hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus a lywodraethir yn dda fod â threfniadau effeithiol ar gyfer:

- diffinio deilliannau cynaliadwy;
- pennu sut i gyflawni'r deilliannau bwriadedig;
- datblygu capasiti;
- rheoli risgiau a pherfformiad, gan gynnwys rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gref; ac
- atebolrwydd effeithiol am lywodraethu da.

13 Fe wnaeth yr angen i ddargyfeirio adnoddau i fynd i'r afael â phandemig y Coronafeirws olygu nad oedd cyfle i uwch reolwyr adolygu na chymedroli canfyddiadau cychwynnol yr hunanasesiad drafft fel a fwriadwyd. Ar ben hynny, nid oedd yn bosibl trefnu bod arbenigwr allanol yn herio'r gwerthusiadau, fel a gynlluniwyd. Felly nid oedd y Cyngor yn gallu cwblhau'r broses hunanasesu mewn modd mor drylwyr ag a fwriadwyd. Ar yr adeg pan fu'n rhaid i'r Cyngor atal y broses hunanasesu, canfuom fod yr hunanasesiad a gwblhawyd yn rhannol ganddo'n canolbwyntio'n ormodol ar fodolaeth trefniadau a pholisïau a'i fod yn rhoi rhy ychydig o bwys ar werthuso effaith a dangos effeithiolrwydd y trefniadau hynny.

14 Mae strategaethau a pholisïau allweddol y Cyngor yn eu lle ar y cyfan, ond mae eu hansawdd yn anghyson. Canfuom, er enghraifft, fod y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2019-2022 yn darparu dull strategol eglur o ymdrin â her sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys i helpu i drefnu dyluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Fodd bynnag, canfuom fod rhai polisïau a strategaethau pwysig eraill o lai o gymorth o ran rhoi arweiniad i'w darpar

ddefnyddwyr, a bod angen diweddaru rhai i sicrhau eu bod yn gyfoes ac yn gyson â fframwaith polisi a blaenoriaethau ehangach yn Cyngor. Nid yw'r polisi Chwythu'r Chwiban, er enghraifft, wedi cael ei adolygu am beth amser ac mae'n llai eglur mewn rhai mannau nag y gallai fod.

15 Fe wnaethom farnu hefyd bod y Cyngor, yn niffyg y broses gymedroli arfaethedig, wedi bod yn rhy hael yn ei werthusiad o ansawdd rhai o'i bolisïau a threfniadau yn yr hunanasesiad. Er enghraifft, barnodd y Cyngor fod ei gofnod o wneud penderfyniadau'n rhagorol. Fodd bynnag, canfuom fod adroddiadau ar gyfer aelodau sy'n tanategu prosesau penderfynu, mewn rhai achosion, yn cyfeirio dim ond at yr opsiwn a ffefrir. Polisi'r Cyngor yw cynnwys arfarniadau o'r opsiynau 'mewn modd cymesur a lle y bo'n berthnasol i'r mater dan ystyriaeth a gall hyn fod yn seiliedig ar bwysigrwydd ariannol neu strategol penderfyniad'. Fodd bynnag, mae'n aneglur sut y mae'r Cyngor yn pennu 'cymesuredd'. Dan yr amgylchiadau hyn, ceir risg y gellid canfod bod diffyg tryloywder mewn prosesau penderfynu, ac y gallai'r rhai sy'n anghytuno â phenderfyniad deimlo bod opsiynau eraill wedi cael ystyriaeth annigonol.

16 Mae swyddogion sy'n drafftio adroddiadau ar gyfer aelodau etholedig yn defnyddio templed sydd o gymorth i ddatblygu arddull cyson ac i sicrhau bod awduron yn mynd i'r afael â materion allweddol megis y goblygiadau ariannol, o ran cydraddoldebau ac o ran personél a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Lle y bo angen, mae adroddiadau ar gyfer aelodau'n cyfeirio'n glir at y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad ac yn ymgynghori â'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151. Fodd bynnag, nid yw'r templed yn ei gwneud yn ofynnol i awduron egluro'n benodol beth yw barn y swyddogion statudol hyn mewn perthynas â'r penderfyniadau ac argymhellion arfaethedig. Lle caiff barn y swyddogion hyn ei hepgor, ceir risg y canfyddir nad oedd y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar wybodaeth lawn.

17 Ar wahân i'r hunanasesiad, ceir enghreifftiau eraill lle nad yw'r Cyngor yn ddigon eglur o ran cydnabod agweddau ar ei drefniadau y mae angen eu gwella. Er enghraifft, mabwysiadodd y Cyngor Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd yn ffurfiol ym mis Chwefror 2020, ac mae'r fframwaith hwn yn cynnwys polisi rheoli risgiau eglur. Mae'r rhain yn ddatblygiadau cadarnhaol; mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd mabwysiadu'r fframwaith yn darparu sail i'r Cabinet, Pwyllgorau Crafu ac uwch arweinwyr fonitro cynnydd, rheoli perfformiad a llywio gwelliant. Fodd bynnag, mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn disgrifio'r trefniadau newydd mewn perth manylder, er mai dim ond ychydig cyn diwedd y flwyddyn y mae a wnelo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol â hi y cawsant eu mabwysiadu. Nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ei gwneud yn ddigon clir sut y mae'r trefniadau newydd yn gwella'r hyn a oedd yn bodoli cyn hynny.

18 Mae Grŵp Arwain Craffu'r Cyngor wedi goruchwylio newidiadau i strwythur y swyddogaeth graffu ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad ar 'Trosolwg a Chraffu –

Addas ar gyfer y Dyfodol?'[2] yn 2018. Fodd bynnag, roedd arolwg aelodau ac adroddiad dilynol i'r Grŵp Arwain Craffu ym mis Medi 2020 yn canolbwyntio'n ormodol ar faterion megis cyfraddau presenoldeb, hyd cyfarfodydd a nifer yr eitemau ar yr agenda yn hytrach nag ar y materion sy'n cyfrannu'n fwy uniongyrchol at ansawdd ac effaith y swyddogaeth graffu.

## Mae uchelgais y Cyngor wedi cynyddu, ac nid yw agweddau ar ei drefniadau wedi datblygu'n ddigon da eto i sicrhau ffocws trylwyr a chyson ar flaenoriaethau corfforaethol

### Nid yw uchelgais cynyddol y Cyngor ar draws nifer o gynlluniau'n cael ei fynegi'n ddigon eglur

19 Ym mis Mehefin 2019, fe gytunodd y Cabinet ar Strategaeth Drawsnewid y Cyngor, '#Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd' (y Strategaeth). Mae'r Strategaeth yn rhaglen uchelgeisiol ac eang o newid sy'n cynnwys cyfres o brosiectau mawr ond ar wahân, gan gynnwys strategaeth masnacheiddio a buddsoddi, a datblygiadau sy'n ymwneud â llunio lle â'r gweithlu. Bydd cyflawni'r Strategaeth yn llwyddiannus yn arwain at newidiadau sylweddol i'r modd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau yn ogystal â rhaglen sylweddol o fuddsoddi cyfalaf. Bydd rhoi'r newidiadau hyn, y mae rhai ohonynt yn ddiwylliannol o ran eu natur, ar waith mewn modd cyson ar draws sefydliad mawr a chymhleth yn cymryd amser ac yn galw am ffocws diwyro ac arbenigedd sylweddol ym maes rheoli newid.

20 Fis ar ôl cymeradwyo'r Strategaeth, ym mis Gorffennaf 2019, fe gymeradwyodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol wedi'i ddiweddaru ar gyfer y cyfnod 2018-23. Fel sy'n ofynnol, mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hefyd yn cynnwys adran am y Strategaeth Drawsnewid, gan ei disgrifio fel, 'rhaglen strategol o waith "awdurdod cyfan"', a chan nodi ei chwmpas mewn diagram (gweler **Arddangosyn 2**).

21 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn rhestru saith elfen o 'waith allweddol o'r rhaglen drawsnewid'. Mae'r rhestr yn adlewyrchu chwe Amcan Llesiant y Cyngor ac mae'n gyson â hwy; mae'n cynnwys, er enghraifft, tair rhaglen buddsoddi cyfalaf sylweddol i wella stoc dai'r Cyngor, ei ysgolion a'i ddarpariaeth ar gyfer plant agored i niwed a'u teuluoedd. Fodd bynnag, dim ond un o'r saith elfen a restrir (Cyflawni Strategaeth Ddigidol newydd y Cyngor) sydd â chysylltiad eglur ac uniongyrchol â'r naw elfen yn y Strategaeth Drawsnewid a nodir yn **Arddangosyn 2**.

22 Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys adran sydd wedi'i neilltuo i'w 'Strategaethau, cynlluniau a pholisïau corfforaethol'. Mae'r Strategaeth Drawsnewid a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn hygyrch i'r cyhoedd o'r adran hon o'r wefan. Fodd

[2] 'Trosolwg a Chraffu - Addas ar gyfer y Dyfodol?: Swyddfa Archwilio Cymru (2018)

bynnag, nid yw'r cynllun gweithredu i gyflawni'r Strategaeth Drawsnewid yn cyfeirio o gwbl at y 'saith elfen o waith allweddol' a nodir yn y Cynllun Corfforaethol.

23 Ar y cyfan, felly, nid yw'r cysylltiadau rhwng y Cynllun Corfforaethol a'r Strategaeth Drawsnewid yn ddigon amlwg. Ar ben hynny, mae'r Cynllun Corfforaethol mewn adran wahanol ar wefan y Cyngor i'r Strategaeth Drawsnewid. O ganlyniad, ceir risg na fydd rhanddeiliaid yn deall amcanion y Cyngor yn ddigon clir ac yn gallu gwahaniaethu'n glir rhwng:

- **yr hyn** y mae'n bwriadu ei gyflawni yn y tymor byr a chanolig (fel a nodir yn ei Amcanion Llesiant); a'r
- newidiadau o ran **sut** y mae'n bwriadu cyflawni ei Amcanion Llesiant (a nodir yn y Strategaeth Drawsnewid).

**Arddangosyn 2: y strategaeth drawsnewid, #Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd**




**Ffynhonnell**: CBS Caerffili, Cynllun Corfforaethol 2018-23, Adolygwyd a Diweddarwyd ar gyfer 2019-20

24 Ym mis Tachwedd 2019, cafodd y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau y diweddariad chwe-misol cyntaf ar y cynnydd o ran rhoi cynllun gweithredu'r Strategaeth Drawsnewid ar waith. Roedd yr adroddiad diweddaru'n dangos y bu peth cynnydd cynnar, ond roedd yn dangos llithriant yn erbyn y graddfeydd amser disgwyliedig gwreiddiol. Roedd diweddariad arall wedi'i amserlennu ar gyfer mis Mai 2020.

25 Rhwng mis Mawrth a mis Medi 2020, fe darfodd y pandemig ar batrwm arferol prosesau penderfynu'r Cyngor. Fe wnaeth y Cabinet ailgydio yn ei gyfrifoldebau penderfynu ym mis Mehefin 2020, gan gwrdd o bell, ond ni chafodd pwyllgorau

craffu eu hailgynnull tan ddiwedd mis Medi. Felly ni ddigwyddodd y diweddariad arfaethedig ar roi’r Strategaeth Drawsnewid ar waith fel a fwriadwyd. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2020, cytunodd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau i ailgyflwyno diweddariadau chwemisol ar gyflawni’r Strategaeth, a chyflwyno gweithdai chwemisol ar gyfer yr aelodau yn gynnar yn 2021 i gyd-daro â chyhoeddi adroddiadau ar gynnydd yn y dyfodol.

26 Ym mis Gorffennaf 2020, fe gytunodd y Cabinet ar gyfres o ddeg adolygiad corfforaethol i gryfhau’r dull newydd a oedd wedi’i ymgorffori yn y Strategaeth Drawsnewid ac i gyfnerthu’r newidiadau sylweddol i ddarparu gwasanaethau sydd wedi dod i’r amlwg o ymateb y Cyngor i’r pandemig a’u datblygu ymhellach. Mae’r newidiadau hyn yn cynnwys digideiddio gwasanaethau’n fwyfwy, mwy o drefniadau gweithio hyblyg ar gyfer staff a newidiadau i’r ffordd y mae trigolion yn ymgysylltu wyneb yn wyneb â gwasanaethau’r Cyngor.

27 Mae **Arddangosyn 3** yn dangos y rhaglen o ddeg adolygiad corfforaethol.


**Arddangosyn 3: Deg adolygiad corfforaethol, y cytunwyd arnynt ym mis Gorffennaf 2020**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwasanaethau Cerdded i Mewn | Un Cyngor | Sefydliad sy’n Dysgu |
| 2 | Cyswllt o Bell | | |
| 3 | Darparu ar y Rheng Flaen | | |
| 4 | Gwasanaethau Cymorth | | |
| 5 | Gweithio Hyblyg | Y Gweithlu | |
| 6 | Datblygu’r Gweithlu | | |
| 7 | Cynllunio Ariannol Cynaliadwy | | |
| 8 | Gwybodaeth, Mewnwelediad a Deallusrwydd | Adnoddau | |
| 9 | Gwirfoddoli | | |
| 10 | Prosesau Penderfynu | | |

**Ffynhonnell**: CBS Caerffili ‘Cryfhau Tîm Caerffili’: Cabinet, 22 Gorffennaf 2020

28 Fe wnaeth y Cyngor gynnwys y deg adolygiad corfforaethol fel rhan o'i Strategaeth Drawsnewid. Mae **Arddangosyn 4** yn rhoi darlun mwy eglur o'r Strategaeth nag a ddangosir ar wefan y Cyngor ac yn **Arddangosyn 2**. Mae'r model hwn yn cynnwys y conglfaen llunio lle y cyfeiriwyd ato yn y Cynllun Corfforaethol, a'r conglfaen 'masnacheiddio' sy'n ganolog i gynlluniau'r Cyngor.

**Arddangosyn 4: Strwythur y strategaeth drawsnewid, Mehefin 2020**




**Ffynhonnell**: CBS Caerffili, 'Cryfhau Tîm Caerffili', Cabinet, 22 Gorffennaf 2020

29 Mae **Arddangosion 2 a 4** yn dangos bod Strategaeth Drawsnewid y Cyngor wedi esblygu'n gysyniadol. Fodd bynnag, nid yw blaenoriaeth berthynol y Strategaeth Drawsnewid a'r elfennau hynny o'r Cynllun Corfforaethol sydd y tu allan i'r Strategaeth Drawsnewid yn ddigon clir i'r cyhoedd nac ymhlith cynghorwyr anweithredol eto. Yn rhannol oherwydd pandemig y Coronafeirws, nid yw cynghorwyr wedi neilltuo rhyw lawer o amser i ystyried a pherchenogi'r Strategaeth Drawsnewid a chwarae eu rhan mewn gwaith i'w chyfleu o fewn y Cyngor a ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno cyfres o sesiynau briffio aelodau ond, ar y cam cynnar hwn yn y broses o roi'r Strategaeth Drawsnewid ar waith, rydym yn cwestiynu a yw diweddariadau chwemisol yn ddigon i greu a chynnal y ddealltwriaeth, y gefnogaeth a'r momentwm angenrheidiol ymhlith aelodau etholedig.

30 Yn ddiweddar fe dreialodd y Cyngor 'Gyfarfod Craffu ar y Cyd' i drafod yr elfen llunio lle o'r Strategaeth Drawsnewid. Nid oedd y papur a oedd yn cyd-fynd â'r drafodaeth yn gosod y strategaeth llunio lle yn ddigon eglur yng nghyd-destun ehangach y Strategaeth Drawsnewid. Serch hynny, gallai'r dull hwn helpu i ennyn ymgysylltiad swyddogaeth graffu'r Cyngor â blaenoriaethau corfforaethol allweddol.

31 Ym mis Medi 2020, er mwyn cynorthwyo'r Cyngor gyda'i adferiad o bandemig y Coronafeirws, fe gytunodd y Cabinet ar Fframwaith Adfer Strategol (FfAS) [3]. Mae'r Cyngor yn ystyried bod y FfAS yn adendwm i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, yn hytrach na dogfen ar wahân. Mae'r FfAS wedi'i fwriadu fel cynllun trosfwaol, sy'n darparu ffocws cychwynnol a modd i fagu momentwm wrth i'r Cyngor a chymuned Caerffili geisio adfer o effaith pandemig COVID-19.

32 Mae'r FfAS yn nodi dau nod adfer; mae'n ceisio:

- tawelu meddwl ein cymunedau a sadio ein heconomi i'n galluogi i greu dyfodol cadarnhaol a bywiog gyda'n gilydd
- ail-lunio'r sefydliad i ymateb yn rhagweithiol i anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

33 Yn ategu'r ddau nod adfer mae pum egwyddor strategol, sef:

- Ailgyflwyno Gwasanaethau;
- Paratoi at Ail Don yn y Dyfodol;
- Cefnogi Busnesau;
- Gofalu am Gaerffili; a
- Thrawsnewid Gwasanaethau.

34 Mae'r egwyddor Trawsnewid Gwasanaethau yn gyson â rhan o Strategaeth Drawsnewid #Tîm Caerffili. O fewn y FfAS, bwriad y Cyngor yw 'Ail-fframio gwasanaethau'r Cyngor yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd oherwydd COVID-19 ac ymgorffori newid drwy egwyddorion a chynlluniau trawsnewid '#Tîm Caerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd'. Bydd y deg adolygiad corfforaethol a ddangosir yn **Arddangosyn 3** yn ategu egwyddor Trawsnewid Gwasanaethau.

35 Fodd bynnag, mae mabwysiadu'r FfAS yn golygu y caiff blaenoriaethau'r Cyngor eu nodi ar draws tair dogfen: y Cynllun Corfforaethol; y Fframwaith Adfer Strategol fel adendwm i'r Cynllun Corfforaethol; a'r Strategaeth Drawsnewid. Mae amcanion pellach wedi'u cynnwys ym Margen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rydym yn cydnabod bod y FfAS yn newydd ac nad yw wedi cael ei gysoni'n llawn â chynlluniau strategol eraill y Cyngor a'i ymrwymiadau gyda'i bartneriaid rhanbarthol eto. Mae agweddau ar bob dogfen strategol yn gyson ag un neu fwy o'r lleill, ond ar y cyfan, mae blaenoriaethau'r Cyngor yn rhy niferus ac nid ydynt wedi'u nodi'n ddigon cryno ac eglur i ennyn y gefnogaeth gyhoeddus a'r ymrwymiad o fewn y Cyngor sy'n angenrheidiol.

36 Serch hynny, mae blaenoriaethau'r Cyngor yn uchelgeisiol a gallent fod yn bellgyrhaeddol, ac mae'r Cyngor wedi dechrau rhoi ei Fframwaith Adfer Strategol, sy'n cynnwys rhannau allweddol o'r Strategaeth Drawsnewid, ar waith. Yn arbennig, mae'r Cyngor wedi dechrau cyflawni'r rhaglen o adolygiadau corfforaethol a nodir yn **Arddangosyn 3**.

[3] Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2020) Fframwaith Adfer Strategol

## Mae'n rhy gynnar i farnu a yw'r trefniadau sydd yn eu lle i gyflawni'r Strategaeth Drawsnewid yn effeithiol

37 Mae'r Cyngor wedi dysgu o raglenni newid blaenorol. Er mwyn cyflawni ei gynlluniau, mae wedi cydnabod yr angen am gapasiti ychwanegol ac wedi penodi rheolwyr â digon o brofiad i arwain y Strategaeth Drawsnewid. Yn hydref 2019, fe recriwtiodd y Cyngor dri rheolwr trawsnewid ar gontractau cyfnod penodol i ddod ag arbenigedd perthnasol i raglen y Cyngor. Mae portffolios y tri rheolwr yn canolbwyntio ar arloesi, cynllunio'r gweithlu a masnacheiddio. Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021-22 yn cynnwys cyllid pellach i benodi Pennaeth Trawsnewid parhaol, Pennaeth Ffyniant a phedwar rheolwr prosiect yn ogystal â gwneud y swyddi am gyfnod penodol a sefydlwyd yn 2019 yn rhai parhaol.

38 Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno trefniadau rheoli rhaglen i danategu trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwaith. Ers iddo gael ei ailgynnull ym mis Tachwedd 2020, mae cylch gorchwyl y Bwrdd Rhaglen bellach yn cynnwys pennu cwmpas a chyflawni'r deg adolygiad corfforaethol. Mae gan reolaeth gadarn ar y rhaglen y potensial i sicrhau bod y Cyngor yn rheoli'r cymhlethdod sy'n rhan gynhenid o'i gynlluniau ac, yn arbennig, y cysylltiadau rhwng y deg adolygiad corfforaethol sy'n rhan o'r Strategaeth Drawsnewid. Mae'r Bwrdd Rhaglen sy'n goruchwylio'r broses o gyflawni #TîmCaerffili yn cynnwys y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad a Gwasanaeth Cwsmeriaid, a gefnogir gan y Grŵp Cydgysylltu Rhaglen sy'n rheoli'r gwaith o gyflawni'r rhaglen.

39 Fodd bynnag, nid yw'n glir eto bod y Bwrdd yn cael yr effaith a ddymunir ar draws y Strategaeth Drawsnewid yn ei chyfanrwydd. Yn ei gyfarfodydd ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr, er enghraifft, ni wnaeth Bwrdd y Rhaglen ystyried nifer o eitemau sefydlog ar yr agenda sy'n ymwneud ag elfennau allweddol o Strategaeth Drawsnewid #TîmCaerffili.

40 Mae'r Cyngor yn rhoi methodoleg gyson ar waith ar gyfer pennu cwmpas a chyflawni'r deg adolygiad corfforaethol. Mae'r adolygiadau hyn yn croesi ffiniau traddodiadol rhwng gwasanaethau ac nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd; er enghraifft, mae cyswllt eglur rhwng yr adolygiadau o Weithio Hyblyg a Datblygu'r Gweithlu. Mae'r fethodoleg yn ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw gysylltiadau o'r fath ag adolygiadau eraill yn cael eu nodi ond mae'n rhy gynnar i ddod i'r casgliad y bydd y trefniadau rheoli rhaglen yn sicrhau bod dibyniaethau a chysylltiadau rhwng yr adolygiadau'n cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r fethodoleg hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod risgiau'n cael eu hadnabod a'u cofnodi, ond nid yw amodau gorchwyl y Bwrdd Rhaglen yn cyfeirio'n benodol ar reoli risgiau.

41 Mae'r Cyngor yn cydnabod maint a chymhlethdod rhoi newid ar waith yn effeithiol ar draws sefydliad mor fawr, ac ymhlith aelodau etholedig a staff. Yn briodol, mae'r fethodoleg a fabwysiadwyd i gynnal y deg adolygiad corfforaethol yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, staff ac eraill. Ym mis Tachwedd 2020 fe lansiodd y Cyngor ei arolwg trigolion, 'Trafodaeth Caerffili'[4] a oedd yn cynnwys gofyn am farn trigolion am 'wasanaethau cyhoeddus, ac

[4] Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (2020) – Ymunwch yn Nhrafodaeth Caerffili

awgrymiadau ar gyfer ble y gellid gwella pethau wrth i ni edrych i'r dyfodol’. Bydd yr ymatebion i’r arolwg yn cael eu defnyddio i ddatblygu’r deg adolygiad corfforaethol. Serch hynny, mae cyfle o hyd i’r Cyngor estyn ei waith ymgysylltu wrth iddo ddatblygu’r adolygiadau corfforaethol, yn unol â’r egwyddor cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

42 Bydd yr olaf o’r deg adolygiad corfforaethol i gael eu rhoi ar ben ffordd yn ystyried Prosesau Penderfynu’r Cyngor. Mae’r Adolygiad o Brosesau Penderfynu i fod i gael ei gwblhau cyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai 2021. Mae ein gwaith archwilio wedi adnabod dwy agwedd y bydd y Cyngor yn dymuno’u hystyried o bosibl wrth adolygu ei brosesau penderfynu:

- nid oes gan y Cabinet raglen benderfynu tymor canolig sydd wedi’i chynllunio’n dda. Yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2020, er enghraifft, cytunodd y Cabinet ar un eitem yn unig yr oedd gofyn gwneud penderfyniad yn ei chylch ar gyfer ei gyfarfod nesaf yr wythnos ganlynol. Yn y cyfarfod ar 16 Rhagfyr, ni chytunwyd ar unrhyw eitemau yr oedd gofyn gwneud penderfyniadau yn eu cylch yn y dyfodol.
- mae diffyg blaenraglen tymor canolig ar gyfer y Cabinet yn adlewyrchu’r ffaith bod blaenoriaethau’r Cyngor, dros amser, wedi cynyddu o ran eu nifer ac nad ydynt bellach wedi’u nodi’n drefnus mewn un ddogfen. Ar ben hynny, mae diffyg blaenraglen yn golygu nad yw pwyllgorau craffu’r Cyngor yn gallu cynllunio eu gwaith rhag blaen a’u bod felly o bosibl yn treulio gormod o amser yn trafod materion nad ydynt yn flaenoriaethau i’r Cyngor.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.